

# SL(5)564 – Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

Mae paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn rhestru deddfiadau y caiff Gweinidogion Cymru eu datgymhwyso am gyfnod penodedig drwy hysbysiad.

Mae rheoliad 2 yn ychwanegu adran 69 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac Atodlen 19 iddi, ac adrannau 109, 110 a 116A i 116K o Ddeddf Addysg 2002, ynghyd â gorchmynion a wneir o dan adran 108 o'r Ddeddf honno, at y rhestr honno.

Mae'r darpariaethau sydd wedi eu hychwanegu yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, penaethiaid ac eraill mewn perthynas â darparu addysg grefyddol, Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru a'r cwricwlwm lleol.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad cysylltiedig, Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020, ar 23 Mehefin 2020 ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r hysbysiad hefyd yn datgymhwyso adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002, a oedd eisoes wedi'i rhestru ym mharagraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 40 diwrnod (ac eithrio toriad o fwy na phedwar diwrnod) gan ddechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn, oni bai fod y Rheoliadau, yn ystod y cyfnod hwnnw, yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hynny yn sgil y sefyllfa ddigynsail a grëwyd gan y pandemig Coronafeirws a'r amserlen heriol ar gyfer gwneud y Rheoliadau.



Nodir y cynhaliwyd gwaith ymgysylltu rheolaidd â'r prif gyrff cynrychioladol fel ADEW a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, i helpu i lywio'r cynigion polisi ynghylch y gofynion deddfwriaethol a gaiff eu haddasu neu eu datgymhwyso. Mae'r trafodaethau hyn wedi helpu i lywio'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau hyn.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi na chwblhawyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn gan nad oes unrhyw gostau na buddion cysylltiedig. Nid yw'r Rheoliadau hyn ond yn ychwanegu meysydd at y rhestr o ddeddfiadau ym mharagraff 7(5) y caiff Gweinidogion Cymru wneud hysbysiadau yn eu cylch i ddatgymhwyso gofynion statudol.

O ran unrhyw hysbysiadau a wneir, rhoddir manylion am eu heffaith mewn asesiad effaith integredig.

## **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn nad yw teitl y Gweinidog wedi'i gynnwys yn y llofnod o dan y Rheoliadau, yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

### **Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

---

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **Ymateb y Llywodraeth**

---

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### **Trafodaeth y Pwyllgor**

---

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

